
# Pennod 2: Dealltwriaeth a defnydd o’r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

## Dealltwriaeth o’r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

### Ffigur 8. Gwybodaeth yr ymatebwyr am y busnesau bwyd y mae’r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn berthnasol iddyn nhw.

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart



| ?Math o fusnes bwyd | Canran yr ymatebwyr (%) |
|---|---|
| Ddim yn gwybod | 5 |
| Arall | 2 |
| Siopau bwyd eraill | 39 |
| Stondinau marchnad/bwyd stryd | 45 |
| Archfarchnadoedd | 48 |
| Ysgolion, ysbytai a sefydliadau eraill | 55 |
| Gwestai/lletai gwely a brecwast | 78 |
| Tafarndai | 84 |
| Siopau coffi neu frechdanau | 86 |
| Siopau tecawê | 89 |
| Caffis | 91 |
| Bwytai | 94 |

Lawrlwytho'r siart hon

Delwedd .csv

Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 6

Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa fathau o fusnesau bwyd oedd yn dod o dan y CSHB yn eu tyb nhw, gan ddewis o blith rhestr o fusnesau. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn meddwl bod y CSHB yn berthnasol i fwytai (94%), caffis (91%), siopau tecawê (89%), siopau coffi neu frechdanau (86%), tafarndai (84%), a gwestai neu letai gwely a brecwast (78%). Roedd llai o ymatebwyr yn meddwl bod y CSHB yn berthnasol i ysgolion a sefydliadau eraill (55%), archfarchnadoedd (48%), a stondinau marchnad neu fwyd stryd (45%) (Ffigur 8) (footnote 1).

## Defnydd o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr a oedden nhw wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf (naill ai ar safle'r busnes neu ar-lein), ni waeth faint yr oedden nhw'n ei wybod am y CSHB ac ni waeth a wnaethan nhw benderfynu prynu bwyd yno ai peidio. Roedd tua 4 o bob 10 (43%) wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf (footnote 2).

Roedd ymatebwyr yng Nghymru (59%) yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd nag ymatebwyr yn Lloegr (42%) a Gogledd Iwerddon (48%).

Roedd yr arfer o wirio sgoriau hylendid bwyd yn amrywio rhwng gwahanol grwpiau o bobl.

- **Gr?p oedran:** roedd ymatebwyr iau yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes nag oedolion h?n. Er enghraifft, roedd 59% o'r rheiny rhwng 25-34 oed wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes o'u cymharu â 22% o'r rheiny 80 oed a throsodd.
- **Plant o dan 6 oed yn y cartref:** roedd ymatebwyr â phlant (o dan 6 oed) yn y cartref (55%) yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes na'r rheiny heb blant o dan 6 oed yn y cartref (41%).
- **Maint y cartref:** roedd y rheiny mewn cartrefi â 3 pherson neu fwy (er enghraifft, 55% o'r rheiny mewn cartref â 5 neu fwy o bobl) yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr busnes na'r rheiny mewn cartrefi ag 1 person (33%).
- **NS-SEC:** roedd yr ymatebwyr mewn rhai grwpiau galwedigaethol (er enghraifft, 48% o'r rheiny mewn galwedigaethau goruchwylio a thechnegol is, galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol (47%) a myfyrwyr amser llawn (47%) yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes nag ymatebwyr ym mhob gr?p galwedigaethol arall (er enghraifft, 36% o'r rheiny mewn cyflogwyr bach a gweithwyr ar eu liwt eu hunain) a'r rhai a oedd yn ddi-waith am gyfnod hir a/neu nad oedden nhw erioed wedi gweithio (29%). Roedd


y rhai a oedd yn ddi-waith a/neu nad oedden nhw erioed wedi gweithio (12%) yn fwy tebygol na'r rhan fwyaf o'r grwpiau galwedigaethol eraill (er enghraifft, 3%** o'r rheiny mewn galwedigaethau gwaith ailadroddus a lled-ailadroddus) o ddweud nad oedden nhw'n gwybod a oedden nhw wedi gwirio sgôr busnes bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf.

- **Rhanbarth (Lloegr):** roedd ymatebwyr o Ddwyrain Canolbarth Lloegr (48%), Gogledd-orllewin Lloegr (46%) a Swydd Efrog a'r Humber (45%) yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes nag ymatebwyr o Dde-orllewin Lloegr (34%).
- **Diogeledd bwyd (footnote 3):** roedd ymatebwyr â lefelau isel (48%) neu isel iawn (56%) o ddiogeledd bwyd yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes o gymharu â 29% o'r rheiny â lefelau uchel o ddiogeledd bwyd.
- **Gr?p ethnig:** Roedd ymatebwyr Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig (53%) yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes nag ymatebwyr gwyn (42%).

## Ffigur 9. Busnesau bwyd lle'r oedd yr ymatebwyr wedi gwirio'r sgôr hylendid bwyd yn ystod y 12 mis blaenorol.

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| ?Math o fusnes bwyd | Canran yr ymatebwyr (%) |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Rhywle arall | 1 |
| Mewn siopau bwyd eraill | 7 |
| Stondinau marchnad/bwyd stryd | 6 |
| Mewn ysgolion, ysbytai a sefydliadau eraill | 9 |
| Mewn archfarchnadoedd | 11 |
| Mewn gwestai/lletai gwely a brecwast | 17 |
| Mewn tafarndai | 37 |
| Mewn siopau coffi neu frechdanau | 37 |
| Mewn caffis | 53 |
| Mewn bwytai | 73 |
| Mewn siopau tecawê | 73 |

Lawrlwytho'r siart hon

Delwedd .csv


Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 6

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a oedd wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd pa fathau o fusnesau yr oedden nhw wedi gwirio sgoriau hylendid ar eu cyfer yn ystod y 12 mis blaenorol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi gwirio sgôr hylendid bwyd siopau tecawê (73%) a bwytai (73%). Roedd dros hanner yr ymatebwyr (53%) wedi gwirio sgôr hylendid bwyd caffis, roedd 37% wedi gwirio sgôr siopau coffi neu frechdanau, a 37% wedi gwirio sgôr tafarndai (Ffigur 9) (footnote 4).

## Ffigur 10. Sut yr oedd yr ymatebwyr wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnesau bwyd

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| ?Math o fusnes bwyd | Canran yr ymatebwyr (%) |
|---|---|
| Mewn papur newyddion lleol | 3 |
| Ar wefan arall | 4 |
| Ar ap (e.e. Scores on the Doors) | 6 |
| Ar wefan yr ASB | 16 |
| Gwefan neu ap archebu bwyd ar-lein (e.e Just Eat, Deliveroo, Uber Eats) | 24 |
| Gwefan busnes bwyd | 25 |
| Sticer y CSHB sy’n cael ei arddangos yn y busnes bwyd (e.e. yn y ffenest neu ar y drws) | 82 |

Lawrlwytho’r siart hon

Delwedd .csv

Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 6

Gofynnwyd i’r ymatebwyr hynny a oedd wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes sut yr oedden nhw wedi gwirio’r sgôr. Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr (82%) wedi edrych ar y sticer sgôr hylendid bwyd a oedd yn cael ei arddangos ar safle’r busnes bwyd. Roedd chwarter (25%) wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes ar wefan y busnes bwyd, roedd 24% wedi gwirio’r sgôr ar wefan neu ap archebu bwyd ar-lein (er enghraifft, Just Eat, Deliveroo, Uber Eats), ac roedd 16% o’r ymatebwyr wedi gwirio ar wefan yr ASB (Ffigur 10) (footnote 5).

Roedd ymatebwyr yng Nghymru (90%), Lloegr (81%) a Gogledd Iwerddon (88%) yn fwyaf tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid busnes bwyd trwy edrych ar sticer a oedd yn cael ei arddangos ar

safle’r busnes**. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yn Lloegr (26%) yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid busnes bwyd trwy wefan neu ap archebu bwyd ar-lein na’r rheiny yng Nghymru (14%) a Gogledd Iwerddon (11%).

Roedd y dull o wirio sgoriau hylendid bwyd yn amrywio rhwng gwahanol grwpiau o bobl:

- **Gr?p oedran:** roedd oedolion o dan 44 oed (er enghraifft, 45% o’r rheiny rhwng 25 a 34 oed) yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid busnes bwyd ar wefan neu ap archebu bwyd ar-lein nag oedolion 45 oed a throsodd (er enghraifft, 3% o’r rheiny rhwng 65 a 79 oed).
- **Y dref a'r cefn gwlad:** roedd ymatebwyr a oedd yn byw mewn ardal drefol (28%) yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid busnes bwyd drwy wefan neu ap archebu bwyd ar-lein na’r rheiny a oedd yn byw mewn ardal wledig (11%).
- **Rhanbarth (Lloegr):** roedd ymatebwyr a oedd yn byw yn Llundain (36%) yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid busnes bwyd drwy wefan neu ap archebu bwyd ar-lein na’r rheiny a oedd yn byw yn Ne-ddwyrain Lloegr (20%) a De-orllewin Lloegr (19%). Roedd y rheiny a oedd yn byw yn Llundain (24%) hefyd yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd ar wefan yr ASB na’r rheiny yn Ne-orllewin Lloegr (9%).
- **Diogeledd bwyd:** roedd yr ymatebwyr â lefelau isel (30%) ac isel iawn (37%) o ddiogeledd bwyd yn fwy tebygol o fod wedi gwirio sgôr hylendid busnes bwyd drwy wefan neu ap archebu bwyd ar-lein o gymharu ag 19% o’r rheiny â lefelau uchel o ddiogeledd bwyd.

Mewn rhai achosion, gall y ffordd y mae grwpiau gwahanol yn gwirio sgôr hylendid busnes bwyd ddangos ble maen nhw’n bwyta allan neu sut maen nhw’n archebu bwyd tecawê. Er enghraifft, roedd oedolion iau yn fwy tebygol o fod wedi bwyta bwyd o wefan neu ap archebu bwyd ar-lein ac o fod wedi gwirio sgôr hylendid busnes bwyd drwy wefan neu ap archebu bwyd ar-lein (er enghraifft roedd 62% o’r rheiny rhwng 25 a 34 oed wedi archebu bwyd o wefan archebu bwyd ar-lein ac roedd 45% wedi gwirio’r sgôr gan ddefnyddio’r wefan neu’r ap hwnnw) o gymharu ag oedolion h?n (er enghraifft, roedd 8% o’r rheiny rhwng 65 a 79 oed wedi bwyta bwyd o wefan neu ap archebu ar-lein ac roedd 3% wedi defnyddio hwn i wirio sgôr busnes bwyd) (footnote 6).

Gofynnwyd i’r ymatebwyr a oedd wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes (ar safle’r busnes, ar-lein neu mewn taflenni neu fwydlenni) yn ystod y 12 mis blaenorol pa mor aml yr oedd yn hawdd dod o hyd i’r sgôr. Dywedodd 14% o’r ymatebwyr ei bod bob amser yn hawdd dod o hyd i sgôr hylendid bwyd, dywedodd 67% ei bod yn hawdd dod o hyd i’r sgôr y rhan fwyaf o’r amser, a dywedodd 17% ei bod yn hawdd dod o hyd i’r sgôr tua hanner yr amser neu o bryd i’w gilydd (footnote 7).


### Defnyddio’r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd wrth fwyta allan neu brynu bwyd tecawê

Gofynnwyd i’r ymatebwyr pa ffactorau, o blith rhestr o opsiynau, y bydden nhw fel arfer yn eu hystyried wrth benderfynu ble i fwyta allan neu o ble i archebu bwyd tecawê (footnote 8).

## Ffigur 11. Y deg ffactor mwyaf cyffredin sy’n cael eu hystyried wrth archebu tecawê.

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| ?Ffactorau a ystyriwyd | Canran yr ymatebwyr (%) |
|---|---|
| P'un a ddarperir gwybodaeth am galorïau | 2 |
| P'un a ddarperir gwybodaeth am alergenau | 6 |
| P'un a oes dewisiadau iachach ar gael | 8 |
| P'un a yw'n fusnes annibynnol neu'n rhan o gadwyn | 10 |
| Adolygiadau (er enghraifft ar TripAdvisor, Google, y cyfryngau cymdeithasol, neu mewn papurau newydd) | 26 |
| P'un a oes opsiwn dosbarthu neu gasglu | 27 |
| Amserau dosbarthu/casglu | 32 |
| P'un a yw'n bosib archebu bwyd ar-lein | 32 |
| Y cynigion, bargeinion neu ostyngiadau sydd ar gael | 32 |
| Lleoliad y siop tecawê | 33 |
| Sgôr hylendid bwyd | 36 |
| Math o fwyd (fel dull coginio (cuisine) neu ddewisiadau figan/llysieuol) | 48 |
| Argymhellion gan deulu neu ffrindiau | 48 |
| Pris (gan gynnwys y gost dosbarthu) | 53 |
| Ansawdd bwyd | 72 |
| Profiad blaenorol o'r siop tecawê | 78 |

Lawrlwytho’r siart hon

Delwedd .csv

Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 6

O blith y rheiny a oedd wedi archebu bwyd o siop tecawê, profiad blaenorol yr ymatebwyr o’r siop tecawê (78%) ac ansawdd y bwyd (72%) oedd y ffactorau mwyaf cyffredin y byddai’r ymatebwyr yn eu hystyried wrth benderfynu o ble i archebu bwyd tecawê.

Roedd tua 4 o bob 10 (36%) o’r ymatebwyr yn ystyried y sgôr hylendid bwyd wrth benderfynu o ble i archebu tecawê (43% yng Nghymru, 40% yng Ngogledd Iwerddon, 35% yn Lloegr)** (Ffigur 11) (footnote 9).

Roedd yr arfer o ystyried y sgôr hylendid bwyd wrth benderfynu o ble i archebu bwyd tecawê yn amrywio rhwng gwahanol grwpiau o bobl:


- **Gr?p oedran:** roedd ymatebwyr rhwng 25 a 34 oed (48%) yn fwy tebygol o ystyried y sgôr hylendid bwyd wrth archebu tecawê o gymharu â’r holl grwpiau oedran eraill (er enghraifft, 27% o’r rhai 80 oed a throsodd).
- **Plant o dan 6 oed yn y cartref:** roedd ymatebwyr a oedd yn byw mewn cartrefi â phlant o dan 6 oed (44%) yn fwy tebygol o ystyried y sgôr hylendid bwyd wrth archebu bwyd tecawê o gymharu â’r rheiny mewn cartrefi heb blant o dan 6 oed (34%).
- **Rhanbarth (Lloegr):** roedd ymatebwyr o Ddwyrain Canolbarth Lloegr (43%), Gogledd-orllewin Lloegr (42%) a Llundain (39%) yn fwy tebygol o ystyried y sgôr hylendid bwyd wrth archebu bwyd tecawê o gymharu â’r rheiny yn Ne-ddwyrain Lloegr (28%).
- **Cyfrifoldeb dros siopa am fwyd:** roedd yr ymatebwyr a oedd yn gyfrifol am siopa bwyd (37%) yn fwy tebygol o ystyried y sgôr hylendid bwyd wrth archebu bwyd tecawê o gymharu â’r rhai nad ydyn nhw byth yn siopa am fwyd (19%).

### Ffactorau sy’n cael eu hystyried wrth fwyta allan

## Ffigur 12. Y deg ffactor mwyaf cyffredin sy’n cael eu hystyried wrth fwyta allan.

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| ?Ffactorau a ystyriwyd | Canran yr ymatebwyr (%) |
|---|---|
| P’un a ddarperir gwybodaeth am galorïau | 5 |
| P’un a ddarperir gwybodaeth am alergenau | 8 |
| P’un a yw’r lle’n dda gyda phlant | 14 |
| P’un a oes dewisiadau iachach ar gael | 16 |
| P’un a yw’n fusnes annibynnol neu’n rhan o gadwyn | 20 |
| Adolygiadau (er enghraifft ar TripAdvisor, Google, y cyfryngau cymdeithasol) | 32 |
| Cynigion, bargeinion neu ostyngiadau sydd ar gael | 39 |
| Sgôr hylendid bwyd | 45 |
| Awyrgylch/naws | 48 |
| Math o fwyd (fel y dull coginio (cuisine) neu ddewisiadau figan/llysieuol) | 54 |
| Ansawdd y gwasanaeth | 65 |
| Pa mor lân yw’r lle | 67 |
| Argymhellion gan deulu neu ffrindiau | 67 |
| Lleoliad | 67 |
| Pris | 71 |
| Profiad blaenorol o’r lle | 81 |
| Ansawdd y bwyd | 84 |

Lawrlwytho’r siart hon

Delwedd .csv

Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 6

O blith y rheiny sy'n bwyta allan, ansawdd y bwyd (84%) a phrofiad blaenorol yr ymatebwyr o'r lle (81%) oedd y ffactorau mwyaf cyffredin y byddai'r ymatebwyr yn eu hystyried wrth benderfynu ble i fwyta. Roedd dros 4 o bob 10 (45%) yn ystyried y sgôr hylendid bwyd wrth benderfynu ble i fwyta (Ffigur 12) (footnote 10).

## Pa mor aml roedd ymatebwyr yn gwirio sgôr hylendid busnes bwyd wrth gyrraedd y safle

Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor aml y bydden nhw'n gwirio sgôr hylendid bwyd bwyty neu siop tecawê wrth gyrraedd y safle. Dywedodd tua un o bob 10 (11%) eu bod bob amser yn gwirio sgôr hylendid bwyd busnes wrth gyrraedd, dywedodd 19% o'r ymatebwyr eu bod yn gwneud hyn y rhan fwyaf o'r amser, a dywedodd 32% eu bod yn gwneud hyn tua hanner y amser neu o bryd i'w gilydd. Dywedodd tua thraean (34%) o'r ymatebwyr nad ydyn nhw byth yn edrych ar sgôr hylendid bwyd busnes wrth gyrraedd y safle. (footnote 11)

Roedd yr ymatebwyr yng Nghymru (48%) a Gogledd Iwerddon (38%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwirio'r sgôr wrth gyrraedd y safle bob amser neu'r rhan fwyaf o'r amser o gymharu â'r ymatebwyr yn Lloegr (28%). Roedd ymatebwyr yn Lloegr (36%) yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent erioed wedi gwirio'r sgôr wrth gyrraedd y safle o gymharu ag ymatebwyr yng Ngogledd Iwerddon (25%) ac yng Nghymru (18%).

1. Cwestiwn: Pa rai o'r canlynol ydych chi'n meddwl sy'n dod o dan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd? Ymatebion: Bwytai; Caffis; Siopau tecawê; Siopau coffi neu frechdanau; Tafarndai; Gwestai/lletai gwely a brecwast; Archfarchnadoedd; Ysgolion neu sefydliadau eraill; Stondinau marchnad/bwyd stryd; Gweithgynhyrchwyr (masnachwyr busnes i fusnes) (Cymru yn unig); Siopau bwyd eraill; Arall; Dim un o'r rhain. Sylfaen = 4918, pob un a wnaeth ymateb ar-lein a'r rheiny a wnaeth gwblhau'r arolwg 'Bwyta Allan' drwy'r post.

2. Cwestiwn: Yn ystod y 12 mis diwethaf, ydych chi wedi gwirio sgôr hylendid busnes bwyd? Efallai eich bod wedi gwirio'r sgôr ar safle'r busnes, ar-lein, mewn taflenni neu ar fwydlenni, p'un a wnaethoch chi benderfynu prynu bwyd yno ai peidio. Ymatebion: Ydw, rydw i wedi gwirio Sgôr Hylendid Bwyd busnes bwyd; Nac ydw, dydw i ddim wedi gwirio Sgôr Hylendid Bwyd busnes bwyd; Ddim yn gwybod. Sylfaen = 4918, pawb a ymatebodd ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur 'Bwyta Allan' drwy'r post.

3. Nodir ystyr y term diogeledd bwyd a'r dulliau a ddefnyddir i'w fesur yn yr adran Termau Technegol a Diffiniadau.

4. Cwestiwn: Ym mha rai o'r busnesau bwyd canlynol yr ydych chi wedi gwirio'r sgoriau hylendid yn ystod y 12 mis diwethaf? Ymatebion: Mewn bwytai; Mewn caffis; Mewn siopau tecawê; Mewn siopau coffi neu frechdanau; Mewn tafarndai; Mewn gwestai/lletai gwely a brecwast; Mewn archfarchnadoedd; Mewn ysgolion neu sefydliadau eraill; Ar stondinau marchnad/bwyd stryd; Gweithgynhyrchwyr (masnachwyr busnes i fusnes) (Cymru yn unig); Mewn siopau bwyd eraill; Rhywle arall; Ddim yn gwybod. Sylfaen = 2283, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur 'Bwyta Allan' drwy'r post a oedd wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd yn y 12 mis diwethaf.

5. Cwestiwn: Sut gwnaethoch chi wirio'r sgoriau hyn? Ymatebion: Fe edrychais ar sticer y CSHB a oedd yn cael ei arddangos ar safle'r busnes bwyd (fel yn ffenestr neu ar ddrws y busnes); Fe edrychais i ar wefan neu ap archebu bwyd ar-lein (er enghraifft, Just Eat, Deliveroo, Uber Eats); Fe edrychais i ar wefan y busnes bwyd ei hun; Fe edrychais i ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd; Fe edrychais i ar ap (er enghraifft, Scores on the Doors); Fe edrychais i mewn papur newyddion lleol; Fe edrychais i ar wefan arall; Arall; Ddim yn gwybod. Sylfaen = 2283, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur 'Bwyta Allan' drwy'r post a oedd wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf.

6. Cwestiwn: Yn ystod y 4 wythnos diwethaf, ydych chi wedi bwyta bwyd o'r canlynol….? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol) Ymatebion: Mewn bwyty; Mewn tafarn/bar; O gaffi, siop goffi neu siop frechdanau (naill ai i'w fwyta ar y safle neu i'w gymryd i ffwrdd); O ffreutur (er enghraifft, yn y gwaith, yr ysgol, y brifysgol, neu'r ysbyty); Mewn gwesty, safle gwely a brecwast neu lety; O siop tecawê ar ôl archebu'r bwyd yn uniongyrchol o'r siop neu'r bwyty; O siop tecawê ar ôl archebu'r bwyd trwy gwmni dosbarthu bwyd ar-lein (er enghraifft, Just Eat, Deliveroo, Uber Eats); O safle bwyd brys (naill ai i'w fwyta ar y safle neu i'w gymryd i ffwrdd); O fan bwyd symudol neu stondin fwyd; O leoliad adloniant (er enghraifft, sinema, ale fowlio, clwb chwaraeon); O Facebook Marketplace (er enghraifft, bwyd neu brydau wedi'u paratoi ymlaen llaw); Trwy ap rhannu bwyd (er enghraifft, Olio neu Too Good To Go); Dim un o'r rhain. Sylfaen= 4457, pawb a ymatebodd ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur 'Bwyta Allan' drwy'r post, ac eithrio'r rhieny 'heb nodi'.  Sylwer – nid yw'r canrannau a ddangosir yn dod i gyfanswm o 100% gan y gellid dewis ymatebion lluosog.

7. Cwestiwn: Pan fyddwch chi'n chwilio am sgoriau hylendid bwyd ar gyfer busnesau bwyd, pa mor aml y byddai'n hawdd dod o hyd iddyn nhw? Ymatebion: Bob amser; Y rhan fwyaf o'r amser; Tua hanner yr amser; Weithiau; Byth; Ddim yn gwybod. Sylfaen = 2283, pawb a ymatebodd ar-lein a'r rheiny a lenwodd yr holiadur 'Bwyta Allan' drwy'r post a oedd wedi gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf.

8. Mae hyn yn cynnwys bwyd tecawê a archebir yn uniongyrchol o siop tecawê neu fwyty neu drwy gwmni dosbarthu ar-lein.

9. Cwestiwn: Yn gyffredinol, wrth archebu bwyd o siopau tecawê (naill ai'n uniongyrchol o siop tecawê neu fwyty neu drwy gwmni dosbarthu bwyd ar-lein fel Just Eat, Uber Eats neu Deliveroo) beth rydych chi'n ei ystyried wrth benderfynu o ble i archebu? Ymatebion : Fy mhrofiad blaenorol o'r siop tecawê; Ansawdd y bwyd; Pris (gan gynnwys cost dosbarthu'r bwyd); Y math o fwyd (er enghraifft, y math o cuisine neu ddewisiadau llysieuol/figan); Argymhellion teulu neu ffrindiau; Y Sgôr Hylendid Bwyd; Lleoliad y siop tecawê; A oes dewisiadau dosbarthu neu gasglu ar gael; A oes cynigion, bargeinion neu ostyngiadau ar gael; Yr amserau danfon/casglu; A oes modd archebu'r bwyd ar-lein, er enghraifft drwy wefan neu ap; Adolygiadau, er enghraifft ar TripAdvisor, Google, y cyfryngau cymdeithasol neu mewn papurau newydd neu gylchgronau; A yw'n fusnes annibynnol neu'n rhan o gadwyn; A oes dewisiadau iachach ar gael; A oes gwybodaeth am alergenau ar gael; A oes gwybodaeth am galorïau ar gael; Dim o'r rhain; Ddim yn gwybod. Sylfaen= 3284, pawb a ymatebodd ar-lein sy'n archebu bwyd tecawê.

10. Cwestiwn: Yn gyffredinol, pan fyddwch chi'n bwyta allan, beth fyddwch chi'n ei ystyried pan fyddwch chi'n penderfynu ble i fynd? Meddyliwch am fwyta allan mewn bwytai, tafarndai/bariau, a chaffis/siopau coffi/siopau brechdanau. Ymatebion: Ansawdd y bwyd; Fy

mhrofiad blaenorol o'r lle; Glendid y lle; Ansawdd y gwasanaeth; Argymhellion teulu neu ffrindiau; Pris; Lleoliad; Y math o fwyd (er enghraifft, y math o cuisine neu ddewisiadau llysieuol/figan); Y Sgôr Hylendid Bwyd; Awyrgylch y lle; A oes cynigion, bargeinion neu ostyngiadau ar gael; Adolygiadau, er enghraifft ar TripAdvisor, Google, y cyfryngau cymdeithasol, neu mewn papurau newyddion neu gylchgronau; A yw'n fusnes annibynnol neu'n rhan o gadwyn; A oes dewisiadau iachach ar gael; A yw'r lle'n croesawu plant; A oes gwybodaeth am alergenau ar gael; A oes gwybodaeth am galorïau ar gael; Dim o'r rhain; Ddim yn gwybod. Sylfaen = 3702, pawb a ymatebodd ar-lein sy'n bwyta allan.

11. Cwestiwn: Pan fyddwch chi'n cyrraedd bwyty neu siop tecawê, pa mor aml, os o gwbl, y byddwch chi'n edrych ar sgôr hylendid busnes bwyd? Ymatebion: Byddaf i bob amser yn edrych ar y sgôr pan fyddaf i'n cyrraedd; Byddaf i'n gwneud hyn y rhan fwyaf o'r amser; Byddaf i'n gwneud hyn tua hanner yr amser; Byddaf i'n gwneud hyn o bryd i'w gilydd; Dydw i byth yn gwneud hyn pan fyddaf i'n cyrraedd; Ddim yn gwybod. Sylfaen = 4756, yr holl ymatebwyr ar-lein a'r rheiny a atebodd yr holiadur 'Bwyta Allan' drwy'r post a ddywedodd sut y bydden nhw'n gwirio sgôr hylendid bwyd busnes bwyd, ac eithrio'r rheiny nad ydynt yn bwyta mewn bwytai nac yn archebu bwyd o siopau tecawê.